**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu - ba mor barod yw plant i ddechrau'r ysgol

**Chamber Meeting Room - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd H M Morris (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | F M Gordon | D W Helliwell |
| B Hopkins | L R Jones | P B Smith |

**Mynychwyr eraill**
Cllr Mark Child

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sian Bingham | Rheolwr Strategol Atal ac Ymyrryd yn Gynnar |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): E W Fitzgerald a/ac E J King

---

1 **Datganiadau o fuddiant**

Dim

2 **Effaith ymchwiliad craffu ar ba mor barod yw plant i ddechrau'r ysgol ac adroddiad dilynol**

Ailgyfarfu'r Panel Ymchwilio i edrych ar effaith yr argymhellion a gododd o'r Ymchwiliad Craffu i Ba mor Barod yw Plant i Ddechrau'r Ysgol a'r cynnydd o ran yr argymhellion hyn. Aeth y Cynghorydd Mark Child, Sian Bingham a Sharon Jones i'r cyfarfod i drafod cynnydd.

Mae'r panel yn falch o glywed bod ei waith a'r argymhellion dilynol wedi cael effaith mewn sawl maes a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Maent yn awyddus i glywed am y newidiadau a gafwyd ar lefel weithredol a strategol. Bydd y newidiadau strategol yn sicrhau bod ymrwymiad a strategaeth tymor hwy ar waith, ac ar lefel weithredol, mae gwasanaethau'n dod yn fwy cyffredin a bod mwy o gydlyniad a chyswllt rhyngddynt ar draws sefydliadau gwahanol.

Roedd ganddynt ddiddordeb mewn clywed am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddefnyddio'r adnodd yn yr ardaloedd hynny lle na cheir gwasanaeth Dechrau'n Deg drwy ddatblygu'r ethos hwnnw, lle y bo modd, mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill yn yr ardaloedd hyn. Mae Cynghorwyr yn hapus i glywed am lwyddiant y Prosiect Jig-so amlasiantaeth ac estyn Cynllun Peilot y Cynnig Gofal Plant.

Mae'r panel yn arbennig o falch bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno y dylai'r Blynyddoedd Cynnar barhau i fod yn un o'i flaenoriaethau allweddol yn y dyfodol.

Mae'r panel felly'n fodlon ar y cynnydd a wnaed o ran argymhellion 1, 2, 4 a 9 ac ni fydd yn ymdrin â nhw ymhellach.

Clywsant am yr argymhellion hynny nad ydynt yn gyflawn eto ond cafwyd cynnydd gyda nifer o'r argymhellion hyn gan gynnwys y canlynol:

- Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ymateb i ofynion penodol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) o ran y blynyddoedd cynnar.
- Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion bellach wedi'i fapio ac mae'r data wedi'i gasglu fel bod y math newydd o wariant yn cael ei fonitro ac y gellir tynnu sylw at arfer da. Mae'r panel yn awyddus i weld yr holl arfer da a ganfuwyd yn cael ei rannu ar draws ysgolion.
- Mae gweithgor sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol wedi'i sefydlu i rannu argymhellion a datblygu dealltwriaeth gytûn o'r camau gweithredu i'w cymryd i ddatblygu gwaelodlin Cyfnod Sylfaen. Roedd y panel yn awyddus i weld hyn yn datblygu er mwyn helpu i sicrhau cysondeb a chadernid.
- Mae Arweinydd Strategol newydd y Cyfnod Sylfaen yn dechau meithrin perthnasoedd gwaith â phobl berthnasol a bydd yn dechrau rhannu arfer da. Mae'r panel yn awyddus i weld safonau gofynnol mewn perthynas â throsglwyddo o leoliadau gofal dydd i ysgol yn cael eu datblygu'n llawn.

Mae cynghorwyr yn cydnabod y bydd gan rai o'r argymhellion amserlen ddatblygu tymor hwy. Byddant felly'n cyfeirio'r argymhellion hynny sy'n weddill, sef 3, 5, 6 ac 8 at Banel Craffu Perfformiad Ysgolion er mwyn iddo fynd ar drywydd y rhain mewn 12 mis.

Ysgrifennir llythyr at Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles a Phlant, Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n adlewyrchu barn y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm

To/
**Councillor Mark Child Cabinet Member for Health and Wellbeing**
**Jen Raynor Cabinet Member for Children, Education and Lifelong Learning**

*Please ask for: Gofynnwch am:* Scrutiny
*Direct Line: Llinell Uniongyrochol:* 01792 637256
*e-Mail e-Bost:* scrutiny@swansea.gov.uk
*Date Dyddiad:* 13 April 2018

**BY EMAIL**

Summary: This is a letter from the Readiness for School Scrutiny Inquiry Panel to the Cabinet Member for Health and Wellbeing and for Children, Education and Lifelong Learning following the meeting of the Panel on 27 March 2018. The purpose of the meeting was to follow up on progress made against scrutiny recommendations.

Dear Cabinet Members,

**Readiness for School Scrutiny Inquiry Impact and Follow up – 27 March 2018**

As you are aware the Inquiry Panel reconvened on the 27 March 2018 to look at the impact of and progress made with the recommendations arising from the Scrutiny Inquiry into Readiness for School.

We would like to thank Cllr Child, Sian Bingham and Sharon Jones for attending our meeting to discuss progress.

We were pleased to hear that our work and the resulting recommendations have made an impact in many areas and that substantial progress had been made. We were keen to hear about that changes that have occurred at operational and strategic levels. That the strategic changes will ensure a longer term commitment and strategy is in place, whilst at an operational level services are becoming more wide spread, aligned and linked across different organisations.

We were interested to hear about the work being done to utilise resource in those areas not covered by Flying Start by developing that ethos, where possible, within other early years setting within these areas. We are happy to hear about the success of the multi-agency Jigso Project and the extending of Childcare Offer Pilot.

We are particularly pleased that the Public Service Board has agreed that early years should continue to be one of their key priorities moving forward.

We are therefore satisfied with progress made on recommendations 1, 2, 4 and 9 and will not follow up on those any further.

We also heard about those recommendations that are not yet complete but that there has been progress with a number of these recommendations including for example:

- Significant progress made with responding to specific requirements of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act in relation to early years.
- That the Pupil Deprivation Grant is now mapped and data collected so that the type of spend is monitored and good practice can be highlighted. The panel are keen to see the good practice found shared across schools.
- That a working party comprising of all key stakeholders has been established to share recommendations and develop a united understand of the actions to be taken to develop a Foundation Phase Profile baseline. The Panel were keen for this to progress to help develop and ensure consistency and robustness.
- The new Foundation Phase Strategic Lead is starting to build working relationships with relevant people and will start to share good practice. The Panel are keen to see minimum standards in relation to transition to school from day care settings to be fully developed.

We recognise that some of the recommendation made will have a longer term development timescale. We will therefore refer those outstanding recommendations, namely 3, 5, 6, 7 and 8 to the Schools Scrutiny Performance Panel to follow up upon in 12 months' time.

We welcome your thoughts on any of the issues raised in our letter but do not require a formal written response at this time.

Yours sincerely,

**COUNCILLOR HAZEL MORRIS**
Convener, Schools Scrutiny Performance Panel
✉ Cllr.hazel.morris@swansea.gov.uk